6ED O FAWRTH

# Ysgol Treganna

**Cylchlythyr Wythnosol**



## Wythnos yma

**Diwrnod y Llyfr**

Ddoe, cawsom ddiwrnod hyfryd yn dathlu Diwrnod y Llyfr yn yr ysgol. Cafodd y disgyblion gyfle i gymryd rhan mewn gweithdai gwych gyda gwahanol awduron, ac roedd y plant wrth eu bodd yn cyfarfod â nhw a chydweithio yn y gweithdai. Yn y prynhawn, trefnwyd crwydr ddarllen, ac roedd y staff a'r disgyblion wedi mwynhau darllen gyda'i gilydd a rhannu eu hoff lyfrau. Diolch yn fawr i'r staff am drefnu diwrnod mor arbennig i blant yr ysgol.

**Eisteddfod Dawns**

Llongyfarchiadau mawr i bawb a berfformiodd nos Fercher yn Eisteddfod Dawns Sir Caerdydd yn Ysgol Fitzalan. Da iawn i Lefi o Flwyddyn 6 am berfformiad gwych yn y gystadleuaeth dawns unigol. Llongyfarchiadau hefyd i'r grŵp dawnsio gwerin Blwyddyn 5 am ennill cystadleuaeth Dawns Werin Blwyddyn 6 ac iau, tipyn o gamp! Diolch yn fawr i Mrs Eleri Jones a Mrs Marged Miles-Farrier am eu holl waith yn hyfforddi'r disgyblion ar gyfer yr Eisteddfod.

**Eisteddfod Cylch yr Urdd**


Pob lwc i bawb fydd yn cystadlu yfory yn Eisteddfod Cylch Plasmawr. Rydym yn falch iawn ohonoch i gyd, cofiwch wneud eich gorau a mwynhau'r profiad!

## Calendr

**Eisteddfod Cylch, Ysgol Plasmawr 7/3/26**

# Y Nyth

Dyma rai o'r digwyddiadau sydd i ddod ym mis Mawrth ac Ebrill.




**Dydd Llun, 16eg o Fawrth am 4:00yp I Darllen Gyda'ch Plentyn (Gweithdy i Rieni)**
Gweler y poster isod am ragor o fanylion. Byddem hefyd yn ddiolchgar iawn pe gallech gadw eich lle drwy'r ddolen isod.
[Darllen Gyda'ch Plentyn]

**Dydd Gwener, 20fed o Fawrth am 9:00yb I Fforwm Rhieni (ASD/ADHD)**
Sesiwn "Holi ac Ateb" gydag athrawon arbenigol o Dîm Cefnogi Awtistiaeth yr Awdurdod Lleol. Cyfle i rieni a gofalwyr ofyn cwestiynau, rhannu profiadau, a chael cyngor ar amrywiaeth o bynciau. Petai gennych ddiddordeb, a fyddech gystal â chofrestru isod, os gwelwch yn dda. Mae croeso i chi ddefnyddio'r ffurflen i rannu unrhyw gwestiynau neu bynciau yr hoffech i'n hathrawon arbenigol eu trafod hefyd. Bydd hyn yn helpu i wneud y sesiwn mor ddefnyddiol a pherthnasol â phosib.
[Sesiwn "Holi ac Ateb"]

**Dydd Gwener, 24ain o Ebrill am 9:30yb – Rheoli Pryder (Gweithdy i Rieni)**
Sesiwn ddwyieithog dan arweiniad ein seicolegydd addysg, Dr Brianna Bowen-Wride. Nod y gweithdy fydd rhannu gwybodaeth am bryder a sut i adnabod ei arwyddion. Byddwn yn dysgu strategaethau ymarferol i'w defnyddio gartref ac yn yr ysgol, a bydd cyfle hefyd i rieni rannu profiadau mewn awyrgylch hamddenol a chyfeillgar. Archebwch eich lle drwy'r ddolen isod, os gwelwch yn dda.
[Rheoli Pryder]

**Dyddiad i'w gofio ...**
Fforwm Rhieni (Rhieni Mabwysiedig)
Pryd? Dydd Gwener, Mai 8fed am 9.30yb
Bydd mwy o fanylion i ddilyn yn fuan.

## Gwisg Ysgol ar gyfer yr Eisteddfodau

Hoffem eich atgoffa y bydd angen i bob plentyn sy'n cynrychioli Ysgol Treganna yn yr Eisteddfod Cylch yfory wisgo gwisg ysgol Ysgol Treganna (dim hoodies, os gwelwch yn dda).

**Manylion y wisg:**

Sgert neu drowsus llwyd (dim siorts)

Sanau gwyn hyd at y ben-glin

Esgidiau du (dim trainers)Crys polo melyn

Siwmper las

Os oes unrhyw broblem neu ymholiad, cysylltwch gyda'r ysgol.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad.

## Patrwm Iaith yr Wythnos

**Patrwm iaith wythnos nesaf**
Ble est ti ddoe/ dros y penwythnos?
Es i…
**Her**
Beth yw dy wyliau delfrydol?
Yn ddelfrydol, byddwn i'n hoffi…

**Testun trafod yr wythnos**
Dywedwch stori am ennill rhywbeth.

**Cân yr wythnos**
Gwilym a Hana Lili - Cynbohir

**Idiom yr wythnos**
Gwneud traed moch o bethau